Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru**

**South Wales** Fire and Rescue Service

# CP i'r Tîm Arwain Gweithredol/Uwch Dîm Rheoli

**GRADD 8**
**Cyflog: £30,296 - £31,364 y flwyddyn**
**37 awr yr wythnos**
**Parhaol**
**Rhif Post: NU178**

Cododd y swydd wag uchod o fewn Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a leolir ym Mharc Busnes Forest View, Llantrisant.

Rydym yn chwilio am berson hynod fedrus a phrofiadol i weithio o fewn ein Huned Cymorth Busnes. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd ag ystod o ddyletswyddau sy'n gymesur â rôl CP i'r Tîm Arwain Gweithredol a'r Uwch Dîm Rheoli.

Efallai bydd y rôl hon yn cynnwys rhywfaint o deithio rhwng safleoedd ar draws ardal De Cymru. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.

Bydd angen Cliriad Diogelwch gan Lywodraeth Cymru cyn cychwyn y rôl.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Mae penodiad ar gyfer y rôl hon yn amodol ar gyflawni gwiriad Manwl y Rhestr(au)
Gwaharddedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Cyn y gwneir unrhyw gynigion ffurfiol bydd yn ofynnol i yr ymgeiswr llwyddiannus gael Prawf Cyffuriau ac Alcohol.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ac mae system gweithio hyblyg ar waith.

A fyddwch cystal â nodi fod hon yn broses gystadleuol iawn a dim ond y rhai hynny sydd wedi arddangos tystiolaeth lawn yn erbyn pob un o feini prawf hanfodol y fanyleb person bydd yn camu ymlaen i'r Broses Ddethol.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnha,u eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/
Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis “Swyddi Gwag Cyfredol” o'r tab ar y chwith.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **09/08/2024** at 12:00 hanner dydd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.